

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes

Dydd Gwener 26 Mehefin 2020

Cynhaliwyd drwy system fideogynadleda rithwir Zoom

Yn bresennol:

Jayne Bryant AS - Cadeirydd

Josh James (Diabetes UK) - Ysgrifennydd

Wendy Gane (Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Cleifion Cymru Gyfan)

Mark Isherwood AS

Dr Dai Lloyd AS

Dr Julia Platts (Arweinydd Clinigol y GIG)

Dai Williams (Diabetes UK)

Gwesteion a Siaradwyr

Sophie Augarde

Yr Athro Steve Bain

Scott Cawley

Abi Clarke

Paul Coker

Richard Frame

Sarah Gibbs

Ros Gray

Teresa Harris

Rob Lee

Gwyneth Price

David Stephens

Dr Rose Stewart

Sujatha Thaladi

Cath Washbrook

JJ Croesawodd bawb ac ymddiheurodd am orfod canslo cyfarfod cyntaf 2020 ac aildrefnu dyddiadau ar gyfer gweddill y flwyddyn o ganlyniad i'r coronafeirws.

JB Diolchodd i bawb am ddod, a dywedodd ei bod yn wych ein bod yn gallu parhau i gynnal y cyfarfodydd hyn yn rithwir. Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof am berson ifanc o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a fu farw, yn anffodus, o ganlyniad i gael diagnosis hwyr.

JB Cyflwynodd Wendy Gane i siarad am adroddiad Grŵp Cyfeirio Cleifion Cymru gyfan (AWPRG) ar brofiadau cleifion yn ystod y coronafeirws.

WG Diolchodd i holl staff y GIG a gofal cymdeithasol am eu cefnogaeth trwy'r pandemig. Ariennir Grŵp Cyfeirio Cleifion Cymru Gyfan gan grŵp gweithredu Rhaglen Atal Diabetes Llywodraeth Cymru ac mae ganddo gynrychiolaeth o bob sector o'r gymuned diabetes. Mae'r adroddiad yn ganlyniad arolwg a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2020 ac a gafodd oddeutu 100 o ymatebion.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â mynediad pobl â diabetes at fwyd yn ystod y pandemig, argaeledd gofal a chymorth meddygol, gohebiaeth gan fyrddau iechyd at gleifion, pryderon yn y gweithle, sgrinio llygaid, iechyd meddwl, dychweliad gwasanaethau hanfodol, cydnabod arfer da ac argymhellion.

Mae copïau o'r adroddiad ar gael trwy anfon e-bost at joshua.james@diabetes.org.uk a chânt eu cyflwyno i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd.

Tynnodd WG sylw at bwysigrwydd cynnwys pobl â diabetes pan fyddwn yn siarad am weithio gyda'n gilydd i gefnogi pobl â diabetes trwy'r pandemig. Roedd yn gobeithio y byddai Aelodau o'r Senedd yn cymryd sylw o'r adroddiad. Diolchodd WG hefyd i aelodau eraill Grŵp Cyfeirio Cleifion Cymru Gyfan am eu gwaith yn llunio'r adroddiad.

- JB Diolchodd i WG am yr adroddiad, a rhoddodd deyrnged i Grŵp Cyfeirio Cleifion Cymru Gyfan a DUK am eu gwaith yn cyfathrebu â phobl â diabetes yn ystod y pandemig. Addawodd y byddai hyn yn cael ei glywed fel rhan o'r sesiynau tystiolaeth yn y Pwyllgor Iechyd.
- Cyflwynwyd JP a fydd yn rhoi cyflwyniad ar yr heriau i wasanaethau diabetes o ganlyniad i bandemig y coronafeirws a sut y gallwn eu goresgyn.
- JP Diolchodd i WG am adroddiad Grŵp Cyfeirio Cleifion Cymru Gyfan.
- Cydnabu ein bod yn dal i fod yng nghanol pandemig y coronafirws ar hyn o bryd ac felly mae'n bwysig parhau i edrych i'r dyfodol. Hefyd, mae'n bwysig cydnabod bygythiad uniongyrchol y coronafeirws i bobl â diabetes, yn ogystal â'r bygythiad o GIG sydd wedi'i lethu. Dylid canolbwyntio ar adnabod niwed posibl a'i leihau.
- Roedd rhai nodau yn cynnwys cynnal timau diabetes i sicrhau arbenigedd ac atal derbyniadau i'r ysbyty, datblygu canllawiau ar hyperglycemia a hypoglycemia yn ystod y coronafeirws, atal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb a darparu meddygfeydd a sgriniadau rhithwir a thros y ffôn yn eu lle. O ganlyniad, mae bygythiad o effeithiau tymor byr a chymhlethdodau aciwt, effeithiau tymor hir rheoli glwcos gwael, niwed hirdymor atal sgrinio, addysg ac ati, a niwed seicolegol.
- Siaradodd am y cynlluniau i gynnal gwasanaethau lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys diogelu gwasanaethau cleifion mewnol, a gwasanaethau traed er mwyn osgoi colli coes neu droed. Nododd broblemau fel methu sgrinio retina o bell.
- Mae'r cynlluniau'n cynnwys cynnal gofal arferol trwy ymgynghoriadau ffôn a fideo. Fodd bynnag, gallai fod problemau o ran mynd am brofion gwaed. Mae rhai enghreifftiau o arfer da h.y. profi mewn meysydd parcio.
- Bu cynlluniau hefyd i barhau ag addysg diabetes ac ati trwy ddulliau cyflwyno eraill. Ataliwyd gwasanaethau atal ond pwysleisiodd JP ei fod yn teimlo'n gryf bod angen cyflwyno hyn ledled Cymru, gan y bydd effeithiau'r coronafeirws yn gwaethygu'r broblem. Hefyd dylid edrych ar drosglwyddo pobl o'r gwasanaeth pediatreg i'r gwasanaethau oedolion.
- Wrth edrych ymlaen mae cyfle i newid a gwella gwasanaethau, a rhaid canolbwyntio ar degwch mewn darpariaeth newydd wrth feddwl am wasanaethau digidol.
- JB Diolchodd i JP, a nododd fod llawer o sylwadau
- TH Wrth siarad am ei sefyllfa bersonol, roedd yn teimlo'n siomedig iawn o ran gohebiaeth gan y bwrdd iechyd ynghylch cymorth a newidiadau mewn gwasanaethau.
- JP Cydnabu nad yw pobl â diabetes ar eu pennau eu hunain. Mae'r coronafeirws wedi effeithio ar ofal pobl o bob gwasanaeth, ac mae llawer o bobl â'r un pryderon. Tynnodd sylw at y ffaith bod timau diabetes ar draws y GIG yn gweithio'n galetach nag erioed ac nad ydynt wedi anghofio am eu cleifion diabetes ond mae llawer wedi cael eu hanfon i'r rheng flaen.
- DS Dywedir wrth bobl â diabetes math 1 am siarad â meddygon teulu bellach yn hytrach na cheisio gofal eilaidd, ond nid yw meddygon teulu yn arbenigwyr diabetes. Beth ddylai pobl fel fi ei wneud?

- JP Mae opsiynau fel llinell ofal DUK, ond ar gyfer cymorth a gofal parhaus, ac os oes problemau parhaus, cysylltwch â ni.
- MI Un mater a godwyd gyda mi yw profi cyn-diabetes ac effeithiau dietau gwaeth yn ystod y cyfnod cadw pellter cymdeithasol.
- JP Mae'n bwysig cynnal gwiriadau blynyddol i weld a yw pobl wedi datblygu diabetes, ond mae'n bwysicach ceisio rhoi dulliau ymyrd ar waith cyn iddynt ddatblygu'r cyflwr. Rydym wedi ceisio cael cymorth ar gyfer rhaglen atal sy'n rhatach o lawer na rhaglenni'r Alban a Lloegr. Rydym eisiau cyllid hirdymor ar gyfer y rhaglen hon fel y gallwn ei chyflwyno ledled y wlad. Rydym hefyd eisiau gallu cynnig y rhaglen gwella diabetes, sy'n cael ei harwain gan y dietegydd Catherine Washbrook. Hyd yn hyn mae cefnogaeth barhaus dros y ffôn i'r rhai ar y rhaglen honno wedi bod yn llwyddiannus. Gobeithir derbyn rhagor o bobl ar ôl y coronafeirws.
- LH Ni ddylai rhaglenni atal a lleihau gael eu micro-reoli gymaint. Hefyd, mae'n ymddangos bod podiatreg wedi diflannu.
- JP Mae rhaglenni gwella yn aml yn golygu tynnu pobl oddi ar feddyginiaethau fel rhan o'r therapi, sy'n gofyn am werthusiad clinigol cyson, ac mae'n rhaid iddo fod yn ddiogel. At hynny, yn aml mae angen cymorth pellach ar bobl ar y rhaglen.
- CW Nid cael gafael ar ddiodydd sy'n anodd ond ailgyflwyno bwyd arferol sy'n gallu bod yn anodd. Mae llawer o bobl wedi profi trawma ac ati a gall hon fod yn broses anodd i'w rheoli.
- SC Mae gwasanaethau podiatreg ledled Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau rheoli problemau traed brys yn unol â gwasanaethau hanfodol. Fel y rhan fwyaf o wasanaethau eraill, gwasgarwyd rhai staff yn ystod yr argyfwng. Rydym yn cael ein llywodraethu gan gadw pellter cymdeithasol a lleoliad gan fod rhai meddygfeydd wedi cau. Dylech bob amser allu cysylltu â'ch gwasanaeth lleol i gael cyngor.
- JB Diolchodd i JP a chyflwynodd RS sy'n siarad am ganlyniadau seicolegol y coronafeirws ar gleifion diabetes a staff sy'n gweithio yn y GIG.
- RS Diolchodd i JB am gael ei gwahodd i siarad a nododd fod 5.1 o swyddi seicolegydd diabetes pediatreg arbenigol cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru ar gyfer tua 1172 o blant ac nid oes model darparu gwasanaeth y cytunwyd arno'n gyffredinol. Mae'r ddarpariaeth yn dameidiog ar y gorau, ac mewn rhai ardaloedd, mae ar goll yn llwyr. Yn y gwasanaethau oedolion mae 1.9 cyfwerth ag amser llawn ar gyfer tua 200,000 o oedolion ledled Cymru - tua 1 seicolegydd ar gyfer pob 100,000 o bobl â diabetes.
- Mae'r Coronafeirws wedi sbarduno dulliau arloesi newydd yng Nghymru. Mae seicolegwyr ledled Cymru hefyd wedi bod yn gweithio'n anhygoel o galed. Mae llawer o seicolegwyr wedi cael eu drafftio i'r GIG i gefnogi staff, i geisio atal staff y GIG rhag profi trawma, sydd wedi bod yn hynod bwysig. Mae rhai adnoddau a grëwyd yng Nghymru wedi cael eu lawrlwytho dros 200,000 o weithiau ledled y byd - sy'n dangos bod taer angen am adnoddau seicoleg diabetes.
- Bydd tonnau o alw wedi hynny, yn dilyn y tonnau coronafeirws cychwynnol bydd yn rhaid i'r GIG barhau i ymdrin â thon o'r rhai sydd angen gofal difrifol, brys, nad yw'n gysylltiedig a'r coronafeirws. Wedyn, bydd ton o'r rhai y cafodd eu gofal am gyflyrau cronig ei atal, ac yn olaf, ton enfawr ddisgwylidig o iechyd meddwl gwael yn amlygu mewn trawma seicolegol, salwch meddwl, anaf economaidd a blinder. Mae'r don olaf hon eisoes yn dechrau ymddangos yn arbennig ymysg rhai â chyflyrau cronig.

RS Y rhai yr effeithir arnynt fwyaf fydd oedolion ifanc, pobl sy'n byw mewn tloidi, pobl â phrofiadau niweidiol lluosog yn ystod plentyndod, pobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes, staff gofal iechyd a phobl â chyflyrau tymor hir fel diabetes.

Mae achosion o bryder ac iselder eisoes 50 y cant yn uwch ymhlith pobl â diabetes. Pobl â diabetes math 1 sydd fwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn gwybod bod llawer o bobl wedi oedi cyn cael cymorth ar gyfer diabetes a amheuir, gan arwain at gyfraddau uwch o bobl yn cael diagnosis yn DKA. Gwyddom fod hyn yn arwain at ganlyniadau gwaeth yn y tymor hir. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y bobl a fydd yn cael diagnosis o diabetes math 1 a math 2 am wahanol resymau.

Mae'r risg o feddyliau hunanladdol ymhlith pobl â diabetes math 1 dair gwaith yn uwch nag ymhlith pobl heb ddiabetes math 1. Mae trallod seicolegol yn achosi canlyniadau gwaeth yn rheolaeth diabetes unigolion.

Wedyn, rhoddodd RS dair enghraifft o astudiaethau achos na ellir rhannu eu manylion llawn.

Awgrymodd un astudiaeth achos fod diffyg cymorth seicolegol i un unigolyn wedi arwain at dderbyniadau difrifol, lluosog i'r ysbty a gostiodd gyfanswm o £172,961 dros ddwy flynedd. Bu farw'r unigolyn hwn, a oedd yn 30 oed, yn ystod gaeaf 2019.

Heb weithredu brys, bydd canlyniadau seicolegol y coronafeirws ar bobl â diabetes a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn enfawr. Mae gwasanaethau i bobl â diabetes eisoes yn cael eu tanariannu'n ddifrifol ac ar hyn o bryd ni allant ateb y galw sydd arnynt. Lle mae gwasanaethau seicoleg diabetes yn bodoli, mae tystiolaeth glir eu bod yn gweithio, yn arbed arian a bywydau. Mae gweithwyr proffesiynol presennol sy'n gweithio yn y sector yn llawn cymhelliant i wneud mwy.

JB Roedd hwn yn gyflwyniad rhagorol a diolch am gyflwyniad mor bwerus. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

DW Mae wedi bod yn wers galed inni i gyd oherwydd y coronafeirws. Mae'n bwysig ein bod yn adeiladu ar ddatblygiadau arloesol, ac yn gwella dulliau cyfathrebu â phobl â diabetes, oherwydd rydym yn mynd i fod yn profi effeithiau'r coronafeirws am amser hir.

Mae'n amlwg bod y rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o gael coronafeirws, fel diabetes, ac mae hynny'n anghywir. Mae gennym ychydig o brosiectau ar y gweill yn Diabetes UK Cymru i geisio dadwneud rhai o'r ffactorau risg uwch negyddol hyn.

JB Diolch i bawb a gyfrannodd i'r trafodaethau heddiw. Byddaf yn anfon nodiadau o gyfarfod heddiw ymlaen at Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd.

JB Daeth â'r cyfarfod i ben.